# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Addasiadau** | Defnyddir y term hwn i ddisgrifio'r addasiadau y gellir eu gwneud yn rhesymol i fodloni gofynion mynediad unigolyn niwrowahanol yn y gweithle neu yn ystod y broses gyfweld. Cyfeirir atynt hefyd fel addasiadau rhesymol. |
| **ADHD** | Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd: dyma gyflwr **ymddygiadol**, gyda nodweddion yn cynnwys patrwm parhaus o ddiffyg sylw a/neu orfywiogrwydd-byrbwylltra sy'n ymyrryd â gweithrediad a/neu ddatblygiad o ddydd i ddydd. |
| **Rhagfarn Cysylltiad** | Y duedd ddiarwybod i gysylltu â phobl sy'n meddwl ac yn ymddwyn yn yr un ffordd â ni. |
| **Awtistiaeth** | Gwahaniaeth datblygiadol gydol oes sy'n effeithio ar sut mae pobl yn cyfathrebu gyda'r byd o'u hamgylch. Gelwir hefyd yn Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig. |
| **Cyd-ddigwydd / Cydforbidrwydd** | Dau gyflwr neu fwy yn cyd-ddigwydd mewn un unigolyn - mae llawer o bobl yn profi nifer o niwrowahaniaethau. Cyfeirir at hyn hefyd (weithiau'n fwy ffafriol) fel gwahaniaethau sy'n cyd-ddigwydd neu'n cyd-fodoli. |
| **DDN** | Byddar, Anabl, a/neu Niwrowahanol |
| **Anabledd** | Caiff ei ddiffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel unrhyw 'nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol sylweddol a hirdymor ar eich gallu i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd'. |
| **Dyscalcwlia** | Anhawster penodol a pharhaus wrth ddeall rhifau sy'n gallu arwain at ystod amrywiol o anawsterau gyda mathemateg. Mae'n digwydd ar draws pob oedran a gallu. |
| **Dyslecsia** | Anhawster dysgu sy'n effeithio ar sgiliau darllen ac ysgrifennu'n bennaf, wedi'i nodi gan wahaniaethau wrth brosesu gwybodaeth. |
| **Dyspracsia** | Anhwylder cyffredin sy'n effeithio ar symudiad a chydsymud corfforol, ond nid yw'n effeithio ar ddeallusrwydd. Mae hyn hefyd yn cael ei adnabod fel Anhwylder Cydsymud Datblygiadol (DCD). |
| **Gweithredu Goruchwyliol** | Cyfres o sgiliau a phrosesau meddyliol sy'n helpu pobl i gynllunio, canolbwyntio a chwblhau tasgau. |
| **Cydgyfeiriadedd** | Mae hyn yn cyfeirio at y ffordd y mae dwy agwedd neu fwy o hunaniaeth person yn gorgyffwrdd neu'n cydadweithio â'i gilydd, er enghraifft eu niwrowahaniaeth a'u hoedran, ethnigrwydd, a'u cefndir economaidd-gymdeithasol. |
| **Masgio** | Strategaeth ymdopi gyffredin a ddefnyddir gan bobl niwrowahanol i guddio rhai nodweddion er mwyn cydymffurfio â disgwyliadau cymdeithas niwronodweddiadol. Fe all gael effaith niweidiol arwyddocaol gan arwain at straen, gorbryder, ac iselder. |

UNQUIET MEDIA

| | |
|---|---|
| **Model Meddygol** | Golwg hanesyddol o anableddau a oedd yn eu disgrifio yn ôl eu diffygion. |
| **Niwrowahaniaeth** | Y gwahaniaeth mewn gweithrediad gwybyddol o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn ymennydd datblygol 'nodweddiadol'; yn cynnwys gwahaniaethau megis awtistiaeth, ADHD, dyslecsia, dyspracsia, ac eraill. |
| **Niwrowahanol** | Mae'r term hwn yn disgrifio pobl sydd â hunaniaeth niwrowahanol, megis y rhai hynny sydd ag awtistiaeth, ADHD, dyslecsia, dyspracsia, ac eraill. |
| **Niwroamrywiol** | Mae'r term hwn yn disgrifio'r amrywiad o weithrediad gwybyddol yn y meddwl dynol. |
| **Niwroamrywiaeth** | Mae'r term hwn yn disgrifio'r amrywiad o weithrediad gwybyddol yn y meddwl dynol. Mae'n amlygu bod gan bob un ohonom ymennydd, gwahaniaethau, galluoedd, sgiliau, ac anghenion unigryw. |
| **Niwroleiafrifol** | Unrhyw grŵp sy'n wahanol i fwyafrif helaeth y boblogaeth o ran nodweddion ymddygiadol a gweithrediad yr ymennydd. |
| **Niwrodeip** | Y math o ymennydd sydd gan unigolyn |
| **Niwronodweddiadol** | Mae'r term hwn yn cyfeirio at rywun sydd â gweithrediad gwybyddol sydd o fewn safonau cymdeithas o'r hyn a ystyrir yn 'nodweddiadol'. |
| **OCD** | Anhwylder Obsesiynol-Gorfodaethol: Cyflwr iechyd meddwl cyffredin, cronig a hirdymor, sy'n golygu bod gan yr unigolyn feddyliau sy'n codi dro ar ôl tro, ac nad yw'n gallu eu rheoli (obsesiynau) a / neu ymddygiadau (cymelliadau) y mae'n teimlo'r awydd i'w hailadrodd. |
| **Addasiadau Rhesymol** | Defnyddir y term hwn i ddisgrifio'r addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud i fodloni gofynion mynediad unigolyn niwrowahanol yn y gweithle neu yn ystod y broses gyfweld. Defnyddir y term addasiadau hefyd. |
| **Dysfforia Sensitifrwydd Gwrthodiad (DSG)** | Dysfforia Sensitifrwydd Gwrthodiad: ymateb uwch i wrthodiad, beirniadaeth, neu adborth negyddol, mae'n gyffredin i bobl niwrowahanol. |
| **Gorlwytho Synhwyrau** | Mae gan lawer o bobl niwrowahanol broblemau synhwyraidd neu anhwylderau prosesu synhwyrau, a gall hyn wneud bywyd yn anodd. |
| **Model Cymdeithasol** | Ymagwedd fwy empathig a chyfannol tuag at anabledd sy'n canolbwyntio ar gryfderau, ac yn dadlau mai strwythurau a rhwystrau cymdeithasol sy'n cyfrannu'n helaeth at heriau, yn hytrach na'r anabledd ei hun. |
| **Stimio** | Ymddygiadau ailadroddus sy'n lleihau gorbryder, lleddfu anesmwythdra, ac yn osgoi gorlwytho synhwyraidd, megis tapio traed, siglo, neu symud dwylo. Caiff ei adnabod yn fwy ffurfiol fel hunan-ysgogi. |
| **Deddf Cydraddoldeb 2010** | Deddf yn y DU sy'n gwarchod pobl rhag gwahaniaethu. |
| **Syndrom Tourette** | Cyflwr cymhleth, a'r nodweddion allweddol yw ticiau, synau a symudiadau anwirfoddol ac afreolus. |

UNQUIET MEDIA